Pwyllgor Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Is-ddeddfwriaeth: 17 Ionawr 2006

Cefndir

1. Bu'r Pwyllgor yn ystyried yr eitem ganlynol o is-ddeddfwriaeth, i'w gwneud o dan Reol Sefydlog 26, ddydd Mercher 17 Ionawr 2007. Cymerwyd cofnod gair-am-air a gellir ei weld ar dudalen we'r Pwyllgor.

    Deddf Llywodraeth Cymru 2006—Gorchymyn Arfaethedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Pwerau Fframwaith) (Cymhwysedd Deddfwriaethol) 2007 [ELLS-42-06]

2. Rhoddodd y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau bapur cefndir esboniadol. Rhoddodd hefyd gopi o'r Gorchymyn drafft a Memorandwm Esboniadol gan y Trefnydd.

3. Ni chynhaliwyd unrhyw ymgynghoriad cyhoeddus ar y Gorchymyn drafft, gan ei fod yn rhoi ar waith y polisi sydd wrth wraidd Deddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'r Ddeddf yn rhoi ar waith y cynigion sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn "Trefn Lywodraethu Well i Gymru", a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2005, sef testun ymgynghoriad cyhoeddus llawn.

4. Bydd y Gorchymyn yn y Cyfrin Gyngor arfaethedig yn diwygio Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 er mwyn caniatáu i'r trydydd Cynulliad basio Mesurau Seneddol ynghylch unrhyw un o'r meysydd polisi sydd wedi'u cynnwys yn y pwerau fframwaith yn adran 178 a 179 o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (ac adran 17 o Ddeddf Unioni Camweddau yn y GIG 2006).

5. Caiff hyn ei gyflawni drwy nodi'r meysydd polisi hyn fel 'Materion' o dan y maes 'addysg a hyfforddiant' yn Rhan 1 o Atodlen 5 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (ac yn y maes 'iechyd a gwasanaethau iechyd' mewn perthynas â'r Ddeddf Unioni Camweddau yn y GIG) a diddymu'r pwerau fframwaith.

Trafodaeth

6. Wrth drafod hyn, gofynnwyd am esboniad o'r materion a ganlyn:

    - Pam bod angen Gorchymyn Trosglwyddo mewn perthynas â'r pwerau fframwaith neilltuol hyn;
    - A oedd yr amserlen ar gyfer y Gorchymyn yn caniatáu digon o amser iddo ddod i rym mewn pryd i'r pwerau fod ar gael i'r trydydd Cynulliad;
    - Cwmpas y pwerau arfaethedig.

5. Mewn ymateb, rhoddodd y Gweinidog a'r swyddogion y wybodaeth a ganlyn:

- Nid oedd y pwerau mewn Deddfau cynharach ar ffurf a oedd yn caniatáu iddynt gael eu newid i bwerau sy'n llunio Mesurau. Fodd bynnag, roedd y pwerau fframwaith yn y ddwy Ddeddf yr oedd y Gorchymyn hwn yn ymwneud â hwy wedi'u drafftio yn sgil cynigion y Papur Gwyn y dylai'r Cynulliad gael pwerau eang iawn i lunio is-ddeddfwriaeth. Derbyniodd y ddwy Ddeddf Gydsyniad Brenhinol cyn Deddf Llywodraeth Cymru 2006 ond gyda'r bwriad y dylent gael eu newid i bwerau sy'n llunio Mesurau maes o law. Heb y Gorchymyn, cyfrifoldeb Gweinidogion Cymru yn hytrach na'r Cynulliad ei hun fydd y pwerau fframwaith yn y ddwy Ddeddf dan sylw.
- O ran amseru, roedd cyfleoedd i'r Cyfrin Gyngor ystyried y Gorchymyn ar ddechrau mis Mawrth ac, os bydd angen, ar ddechrau mis Ebrill a fydd yn golygu y gall fod mewn grym mewn pryd i'r pwerau gael eu defnyddio gan y trydydd Cynulliad ym mis Mai;
- Roedd yn anodd bod yn fanwl ynghylch cwmpas y pwerau am eu bod yn eang. Bydd y modd y cânt eu defnyddio yn fater o ddatblygu polisi yn ogystal â phwerau cyfreithiol.

<u>Penderfyniad y Pwyllgor</u>

7. Ni chynigiwyd unrhyw ddiwygiadau ac roedd y Pwyllgor yn argymell cymeradwyo'r Gorchymyn drafft.

Peter Black AC
Cadeirydd y Pwyllgor